



Ysgol Gynradd Henblas, Llangristiolus, Bodorgan,
Ynys Môn, LL62 5DR. ☎ 01248 723944
[6602156_pennaeth.henblas@hwbcymru.net](mailto:pennaeth.henblas@hwbcymru.net)



Dosbarth Glas: Beth sy'n coginio?!

5/9/2024

Annwyl riant/gwarcheidwad,

Y tymor hwn rydym yn canolbwyntio ar y thema 'Beth sy'n coginio?! Mae'r thema hwn wedi cael ei ddewis gan y disgyblion ac yn canolbwyntio ar gynllunio a thechnoleg bwyd ac yn dysgu plant am wahanol fathau o fwydydd o gwmpas y byd, masnach deg a phwysigrwydd bwyta diet iachus er mwyn eu lles. Bydd y plant yn dysgu sut i ysgrifennu llythyron ffurfiol ac anffurfiol a datblygu sgiliau ychwanegol yn ysgrifennu i hysbysebu a rhoi gwybodaeth.

Bydd y plant hefyd yn dysgu:

- ble y daw'r bwydydd, a sut mae gan fwydydd 'ôl troed carbon' sy'n effeithio ar y gost ;
- Am draddodiadau diwylliannol sy'n perthyn i fwyd; sut mae cynhyrchu bwyd yn bwysig i rai gwledydd arbennig;
- Sut mae diet yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles;
- Gwneud mesuriadau cywir manwl a chyfrifo costau bwydydd a chynhwysion;
- Datblygu sgiliau technoleg bwyd sylfaenol a dilyn ryseitiau;
- Cydweithio fel tîm, penderfynu ar gryfderau, gwendidau a diddordebau aelodau'r tîm;
- Sut i ysgrifennu llythyron ar gyfer ystod o ddibenion a hynny'n ffurfiol ac anffurfiol.

Mae angen dillad nofio ar Ddydd Gwener dros y dyddiadau hyn: 13/9; 20/9; 27/9; 4/10; 11/10 a 18/10. Gofynnwn am gyfraniad tuag at gost bws i'w dalu drwy school gateway tuag at y sesiynau hyn.

*****Fe fydd llyfrau darllen a arwyddwyd gan riant/gwarcheidwad yn cael eu dychwelyd bob Dydd Mercher neu dydd Iau.*****

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod ar Ddydd Gwener i'w ddychwelyd ddim hwyrach na Dydd Mercher.

Wnewch chi drafod y thema gyda'ch plentyn a rhoi eich syniadau drwy lenwi'r holiadur ar y linc hwn:

<https://forms.gle/FQ8UUfH6aNs5aP8DA>

Gyda diolch i chwi am eich cydweithrediad arferol.

Huw Edward Jones/Rowena Robinson (Athrawon Dosbarth glas - blwyddyn 5 a 6)



Blue class: What's cooking?!

Dear parent/guardian

This term we are focusing on the theme 'What's cooking?! This theme has been chosen by the pupils and focuses on food planning and technology and teaches children about different types of food around the world, fair trade and the importance of eating a healthy diet for their well-being. The children will learn how to write formal and informal letters and develop additional skills in writing to advertise and give information.

The children will also learn:

- where food comes from, and how food have a 'carbon footprint' which affects the cost;
- about cultural traditions related to food; how food production is important to certain countries;
- how diet affects our health and well-being;
- to make detailed accurate measurements and calculate the costs of foods and ingredients;
- how to develop basic food technology skills and follow recipes;
- the skill of working together as a team, deciding on the strengths, weaknesses and interests of team members;
- how to write letters for a range of purposes both formally and informally.

Swimwear is required on Fridays for the following dates: 13/9; 20/9; 27/9; 4/10; 11/10 and 18/10. We ask for a contribution to be paid through school gateway towards bus costs for these sessions.

*****Reading books signed by a parent/guardian will be returned every Wednesday or Thursday.*****

Homework will be set on Friday to be returned no later than Wednesday.

Please discuss the theme with your child and provide your ideas by filling in the questionnaire on this link:

<https://forms.gle/FQ8UUfH6aNs5aP8DA>



With thanks to you for your usual cooperation.

Huw Edward Jones/Rowena Robinson (Blue class teachers - years 5
6)

and